**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol Beuno Sant, Y Bala.**
(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd:1** |
| Plant yn gallu mynegi barn yn hyderus. Dealltwriaeth drylwyr o'r pwnc lle maent yn gallu perthnasu i fywyd bob dydd. Gwneir defnydd helaeth gan y disgyblion o TGCH yn ei gwaith, yn ogystal a bod profiadau a sgiliau yn cael eu datblygu drwy medrau meddwl. Mae y pwnc yn boblogaidd.mae'rplant yn awyddus i wybod mwy. Mae gan y disgyblion ddisgwyliadau uchel o'u gwaith ac mae eu cynnydd o ran gwyboadaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn dda.Mae eu perfformiad yn y pwnc gyfuwch ac unrhyw faes arall. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Edrych ar/am hyffordiant pellach ar addysgu AG o'r maes llafur Eglwysig yn enwedig gyda dyfodiad y Cyfnod Sylfaen. |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd :1** |
| Mae cyswllt mynych gyda chartrefi henoed yr ardal yn sicrhau bod y plant yn gweld a chyfrannu ac yn deall eu rol yn ac o fewn y gymdeithas –fel unigolion ac fel aelod o grwp. Mae cyfraniadau cyson yn digwydd at elusennau a phwyslais mawr yn cael ei roi ar beth yw body n ddinesydd byd-eang. Mae y plant yn ymwybodol o drasediau y byd, yn ogystal a phethau lleol. Gallant ddangos cydymdeimlad yn dda, ac maent yn trin eu gilydd yn barchus a gyda gofal , fel y gwnant gyda unrhyw ymwelydd a'r ysgol.Ma'r ysgol yn gyson hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol, ac yn darparu awyrgylch o faddeuant a chymod. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| Edrych ar gydaddoliad dosbarth- ffocws a pherthnasedd. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad: Chwefror 2008** | |
| **Arwyddwyd: A.Evans**<br>**(Pennaeth)** | |